

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL**

Bydd cyfarfod o'r CABINET yn cael ei gynnal ym Mhencadlys y Cyngor,
Y Pafiliynau, Cwm Clydach (Siambwr y Cyngor)

fore Iau, 23^{ain} Mehefin, 2016 am 10.30.

Dolen gyswllt: Mrs Emma Wilkins (Rhif ffôn 01443 424062)

Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn canol dydd ar 20 Mehefin 2016. Mae hawl gan Gynghorwyr ac aelodau o'r cyhoedd i annerch yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, ffoniwch Swyddfa'r Cabinet ar 01443 424062 neu anfonwch e-bost i Cabinet@rctcbc.gov.uk

MATERION I'W TRAFOD

1 DATGAN BUDDIANT:

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Gynghorwyr, yn unol â gofynion Côt Ymddygiad y Cyngor.

Noder:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2 COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 19 Mai 2016 yn rhai cywir.

3 GWELLA DARPARIAETH ADDYSG GYNRADD YNG NGHWM-AMAN

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes sy'n rhoi gwybod i Aelodau am ganlyniad y broses ymgynghori ddiweddar ynglŷn â'r cynigion i wella darpariaeth addysg gynradd mewn perthynas ag Ysgol Cwmaman.

Tudalennau 7 - 72

4 ADRODDIADAU CORFFORAETHOL SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Derbyn adroddiad y Prif Weithredwr sy'n rhoi manylion i'r Aelodau am bedwar adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru a gafodd eu rhyddhau ym Mai 2016, a'r camau i'w cymryd i fynd i'r afael â'r materion a gafodd eu nodi ynddyn nhw.

Tudalennau 73 - 142

5 Y DIWEDDARAF YNGLŷN Â CHYTUNDEB DINAS AR GYFER PRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD

Derbyn adroddiad y Prif Weithredwr sy'n rhoi'r newyddion diweddaraf ynglŷn â hynt gweithredu darpariaethau Penawdau Telerau'r Cytundeb ar gyfer Cytundeb Dinas Prifddinas-Ranbarth Caerdydd gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth San Steffan.

Tudalennau 143 - 168

6 RHAGLEN WAITH Y CABINET

Derbyn adroddiad Ysgrifennydd i'r Cabinet sy'n nodi Rhaglen Waith y Cabinet ar gyfer Blwyddyn 2016-17 y Cyngor, sy'n adlewyrchu'r newid i drefn y rhaglen fel y cafodd ei chytuno yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor, 2016.

Tudalennau 169 - 190

7 MESUR AR GYFER GOFALWYR – ADRODDIAD BLYNYDDOL CWM TAF 2015/16

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n rho'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am y Mesur ar gyfer Gofalwyr, ynghyd â chais am gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2015-16 mewn perthynas â gweithredu Strategaeth Materion Gwybodaeth ac Ymgynghori Cwm Taf.

Tudalennau 191 - 222

8 ASESIAID O DDIGONOLRWYDD CYFLEOEDD CHWARAE A CHYNLLUN GWEITHREDU

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n ceisio sêl bendith y Cabinet ar gyfer asesiad o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae (bob tair blynedd) Rhondda Cynon Taf.

Tudalennau 223 – 340

- 9 CARTREF GOFAL PRESWYL MAES-Y-FFYNNON**
Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n nodi canlyniadau'r broses ymgynghori ynglŷn â dyfodol Cartref Gofal Preswyl Maes-y-ffynnon, a darparu gwasanaethau.

Tudalennau 341 – 362

- 10 ADRODDIAD GWYBODAETH – CYNLLUN DIRPRWYO YR ARWEINYDD**
Derbyn Cynllun Dirprwyo yr Arweinydd, a gyhoeddwyd ar [wefan y Cyngor](#) yn dilyn Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol 2016.
Manylion y cynllun:

- Portffolio aelodau'r cabinet a swyddog uwch dîm reoli priodol
- Aelodaeth o bwyllgorau'r cabinet a chydbwyllgorau
- Penodiadau i gyrrff sy'n ymgymryd â swyddogaethau gweithredol, neu sy'n rhai cyngor arnyn nhw.

Tudalennau 363 - 388

- 11** Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad:

“Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.”

- 12 AILGOMISIYNU GWASANAETHAU GOFAL CARTREF**
Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet ynghylch ailgomisiynu gwasanaethau gofal cartref ar draws ardal Cwm Taf, ac sy'n cynnwys gwybodaeth eithriedig.

Tudalennau 389 - 402

- 13 MATERION BRYD**
Ystyried unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.

Cyfarwyddwr Gwasanaeth ac Ysgrifennydd i'r Cabinet



This page is left Blank.